## ATODLEN 4

Rheoliad 27(7)(b)

## TRAMGWYDDAU A BENNIR AT DDIBENION RHEOLIAD 27(7)(b)

### Tramgwyddau yn yr Alban

**1.** Tramgwydd trais rhywiol.

**2.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(**1**) ac eithrio mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed adeg cyflawni'r tramgwydd, tramgwydd yn erbyn adran 5 o Ddeddf Cyfraith Troseddau (Cydgrynhoi) (Yr Alban) 1995 (cyfathrach â merch o dan 16 oed)(**2**), tramgwydd anwedduster digywilydd rhwng dynion neu dramgwydd sodomiaeth.

**3.** Tramgwydd plagiwm (dwyn plentyn islaw oedran aeddfedrwydd).

**4.** Adran 52 neu 52A o Ddeddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982 (ffotograffau anweddus o blant)(**3**)).

**5.** Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (manteisio ar ffydd)(**4**).

### Tramgwyddau yng Ngogledd Iwerddon

**6.** Tramgwydd trais rhywiol.

**7.** Tramgwydd a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phersonau Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968(**5**)) ac eithrio mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed adeg cyflawni'r tramgwydd, tramgwydd yn groes i adrannau 5 neu 11 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Troseddau 1885 (cael adnybyddiaeth gnawdol anghyfreithlon o ferch o dan 17 oed ac anwedduster dybryd rhwng gwrywod)(**6**), neu dramgwydd yn groes i adran 61 o Ddeddf Tramgwyddau yn erbyn y Person 1861 (sodomiaeth).

**8.** Tramgwydd o dan Erthygl 3 o Orchymyn Amddiffyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1978 (ffotograffau anweddus)(**7**).

**9.** Tramgwydd yn groes i Erthygl 9 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 1980 (ysgogi merch o dan 16 oed i gael cyfathrach rywiol losgachol)(**8**).

**10.** Tramgwydd o dan Erthygl 15 o Orchymyn Cyfiawnder Troseddol (Tystiolaeth etc.) (Gogledd Iwerddon) 1988 (meddu ar ffotograffau anweddus o blant)(**9**).

**11.** Tramgwydd o dan adran 3 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 (manteisio ar ffydd).

(**1**) 1995 p.46.
(**2**) 1995 p.39.
(**3**) 1982 p.45. Mewnosodwyd adran 52A gan adran 161 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (p.33).
(**4**) 2000 p.44.
(**5**) 1968 p.34 (G.I.).
(**6**) 1885 p.69.
(**7**) O.S. 1978/1047 (G.I.17).
(**8**) O.S. 1980/704 (G.I.6).
(**9**) O.S. 1988/1847 (G.I.17).